## Sul y Blodau

**Darlleniad 1: Eseia 50:4–9**
**Darlleniad 2: Mathew 21:1–13**

**Gweddi:**
O! Dduw, ein Tad trugarog, yr un sy’n marchogaeth cymylau ein hamser ac sydd â’i law ar benffrwyn y byd, bydd gyda ni, y rhai sydd â’u dyddiau wedi eu ffrwyno ac sy’n ceisio marchogaeth y ddaear yn ôl ein heisiau ein hunain. Wrth inni droi atat, trugarha wrthym yn ein trueni a’n hangen, drwy Iesu Grist ein Harglwydd a’n Gwaredwr.

Cofiwn eiriau Iesu, ‘Y mae’r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad’. Ac felly, O! Dad nefol, er na fu i’r un ohonom dy weld, cymorth ni i’th ganfod a’th amgyffred ym mywyd a gweinidogaeth Iesu. A heddiw, O! Dad, wrth i ymdaith fuddugoliaethus Iesu ddod i’r cof, ceisiwn, wrth blygu ger dy fron, ddygymod â’r hyn a ddigwyddodd, a’n hatgoffa ein hunain o arwyddocâd ei ddyfodiad rhyfedd. Bydd gyda ni, O! Dad, wrth i ni dy geisio yn yr ymdaith hon.

Gad i ni, yn Iesu, weld un sy’n dod yn ddistadl i ddinas ein profiad, yn llawn tangnefedd a chariad, yn dod i wasanaethu ac i’w roi ei hun yn bridwerth dros lawer. Cofiwn eiriau Iesu gyda diolch yn ein calonnau:

‘Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon ac fe gewch orffwystra i’ch eneidiau.’

Diolch i ti am ddangos i ni trwy Iesu Grist mai Duw addfwyn a gostyngedig o galon wyt ti.

‘Iesu gaiff y clod i gyd,
Ymaith dug bechodau’r byd;
Rhoes ei hunan yn ein lle,
Bellach beth na rydd Efe?
Haleliwia, llawenhewch!
Dewch, moliennwch, byth na thewch.’

Cynorthwya ni felly, O! Dad, i werthfawrogi dyfodiad Iesu ac i ystyried o ddifrif ystyr y gair ‘Hosanna’. Gwared ni rhag i ni gael ein camarwain, a rhag ein camarwain ein hunain yn fwy na dim. Maddau i ni ein diffygion, O! Dad, yn arbennig:

ein hanwadalwch, a byrhoedledd ein croeso i Iesu yn ein bywyd;
am i ni geisio ynddo yn unig yr hyn sy’n boddhau ein syniadau
a’n safbwyntiau ni ein hunain, yn hytrach na’th ddibenion di;
ein dallineb a’n diffyg deall wrth ei weld yn dod i’n plith;
ein hamharodrwydd i dderbyn Iesu’n Arglwydd ar ein bywyd
cyfan.

Yn y gras cyfiawn hwn a amlygwyd yn Iesu, maddau i ni a rhyddha ni o rwymau ein pechod a’n trueni.

Wrth i ni edifarhau a throi atat a chael ein derbyn gennyt, caniatâ i ni dy gwmni ar hyd gweddill taith bywyd. Arwain ni yn awr o Fethania ein trueni ar hyd y ffordd a ddangosodd Iesu i ni – y ffordd atat ti a’th dangnefedd. Cydia’n dynn yn ein dwylo a thywys ni gyda thi i ddinas sanctaidd dy ewyllys. Cynorthwya ni i wynebu holl brofiadau’r daith, o gamau anesmwyth yr asyn i’r dringo dirdynnol ar Fryn Calfaria. Cymorth ni i gofio’r croeso a’r gwawdio, y derbyn a’r gwadu, y llawenydd a’r tristwch, yr ‘Hosanna!’ a’r ‘Croeshoeliwch ef!’ Dyro i ni’r nerth a’r ffydd i wynebu holl realiti’r daith gan adnewyddu’r teimlad fod Iesu wedi ei cherdded o’n blaenau. Er ein breuder a’n hannheilyngdod, defnyddia ni, O! Dad – ymddiried ynom ni, lestri pridd, dy drysor di dy hun.

A chyflwynwn i ti heddiw arweinyddion y gwledydd. Cynorthwya’r cyfryw rai i ganfod mai’r daith ddistadl a gymerodd Iesu yw’r unig wir ffordd i dangnefedd yn ein byd. Agor eu llygaid a’u calonnau i weld y gwirionedd hwn a amlygwyd yn ystod ei ymdaith i Jerwsalem – Caer Tangnefedd. Amen.

***Dafydd Hughes***